# Polisi ymataliaeth a newid cewynnau/dillad isaf gwlyb neu wedi'u baeddu

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas

# Polisi ymataliaeth a newid cewynnau/dillad isaf gwlyb neu wedi'u baeddu

**Nodau:**
Mae rhwymedigaeth gan ddarparwyr addysg i ddiwallu anghenion plant â datblygiad personol gohiriedig yn yr un ffordd ag y byddent yn diwallu anghenion unigol plant â datblygiad iaith gohiriedig neu unrhyw fath arall o ddatblygiad gohiriedig. Ni ddylid eithrio plant rhag gweithgareddau cyn ysgol arferol oherwydd diffyg ymataliaeth.

Mae'r polisi hwn yn pennu gweithdrefnau Ysgol Gymraeg Pontybrenin ar gyfer trin y sefyllfaoedd hyn ag urddas a charedigrwydd i sicrhau bod anghenion plant unigol yn cael eu diwallu a bod safonau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal.

**Beth sy'n digwydd os derbynnir plentyn i'r ysgol sy'n anymataliol?**

Mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn cydnabod mai problem ddatblygiadol neu feddygol yw hon a bydd yn gweithio gyda rhieni i sefydlu cynllun gofal a newid sy'n dderbyniol i bawb ac mae'n debygol y bydd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

**Rhieni**
- Cytundeb â'r rhieni i sicrhau bod cewynnau/dillad isaf y plentyn yn cael eu newid ychydig cyn dod i'r lleoliad/ysgol.
- Darpariaeth rhieni o gewynnau a/neu ddillad isaf sbâr a newid o ddillad.
- Cytuno ar y gweithdrefnau a gaiff eu dilyn pan newidir y plentyn yn yr ysgol, gan gynnwys defnyddio glanhäwr neu eli.
- Cytundeb bod y rhieni'n rhoi gwybod i'r lleoliad/ysgol os bydd marciau/brech gan y plentyn.
- Cytuno i bolisi 'newid lleiaf' h.y. ni fyddai'r lleoliad/ysgol yn newid y plentyn yn fwy mynych na phe bai gartref.
- Cytundeb i adolygu trefniadau os bydd angen.

**Ysgol**
- Cytuno i newid y plentyn yn ystod un sesiwn os bydd y plentyn yn baeddu ei hun neu os bydd yn anghyfforddus o wlyb.
- Cytuno ar ba mor aml y byddai plentyn yn cael ei newid os bydd yn aros am y diwrnod cyfan.
- Cytuno i roi gwybod os bydd y plentyn yn drallodus neu os gwelir marciau/brechau.
- Cytuno i adolygu trefniadau os bydd angen.

**Gweithdrefnau hylendid i'w dilyn ar gyfer newid cewyn wedi'i faeddu neu ddillad/ddillad isaf wedi'u baeddu:**

- Staff i wisgo menig a ffedogau tafladwy wrth ymdrin â'r digwyddiad (yn ogystal â gorchudd wyneb a miswrn trwy gydol y pandemig Covid-19).

- Bydd cewynnau wedi'u baeddu'n cael eu lapio ddwywaith a'u rhoi mewn uned waredu lanwaith.
- Mae'r man newid cewyn i'w lanhau ar ôl ei ddefnyddio.
- Mae dŵr poeth a sebon gwlyb ar gael i olchi dwylo cyn gynted ag y bydd y dasg yn cael ei chwblhau.
- Mae peiriant awyrsychu poeth neu dywelion papur ar gael ar gyfer sychu dwylo.

**Canllawiau staff ar gyfer ymdrin â chewyn/dillad isaf plentyn**

- I blant yn y Cyfnod Sylfaen, byddai'r cynorthwy-ydd addysgu'n gyfrifol am newid cewyn/dillad isaf plentyn (caiff yr athro wneud hefyd, ond bydd hyn yn wirfoddol).
- Bydd plant eraill yn cael eu cefnogi wrth lanhau a newid dillad gan ddibynnu ar lefel eu hannibyniaeth i wneud hyn.

Sylwer: mae'r canllawiau hyn i blant sy'n rhy ifanc i lanhau eu hunain yn effeithiol neu sydd ag anawsterau datblygiadol. Nid yw'r canllawiau hyn ar gyfer ‘damwain un tro’ ac mae'r plentyn yn ddigon annibynnol i lanhau ei hun. Fodd bynnag, dylid estyn yr un lefelau urddas, preifatrwydd a charedigrwydd. Yn yr achosion hyn, dylid lapio dillad isaf ddwywaith a'u rhoi ym mag ysgol y plentyn i'w golchi gartref a rhoi gwybod i'r rhieni.

**I blant y mae angen cefnogaeth arnynt**

- Bydd y cynorthwy-ydd addysgu'n rhoi gwybod i'r athro'n gyfrinachgar ei fod yn mynd i newid plentyn.
- Bydd y cynorthwy-ydd addysgu'n esbonio i'r plentyn yr hyn mae'n mynd i'w wneud i'w helpu i'w lanhau.
- Bydd yr oedolyn yn mynd â'r plentyn i'r toiledau yn y Cyfnod Sylfaen neu i'r toiledau perthnasol os yw'r plentyn mewn blwyddyn hŷn, gan sicrhau y perchir urddas a phreifatrwydd.
- Fel arfer, gofynnir i'r plentyn barhau i sefyll.
- Dylai'r oedolyn wisgo menig a fedog tafladwy (yn ogystal â gorchudd wyneb a miswrn trwy gydol y pandemig Covid-19).
- Dylid gostwng neu dynnu'r dillad hanfodol yn unig.
- Dylid tynnu'r pad/cewyn/dillad isaf wedi'i faeddu/wedi'u baeddu.
- Wrth olchi neu sychu, gwnewch hyn o'r blaen i'r cefn bob troi i atal heintio.
- Sicrhewch fod y croen yn sych gan ddefnyddio tywelion papur (dylid annog y plentyn i helpu os yw'n gallu).
- Newidiwch y pad/cewyn/dillad isaf (dylid annog y plentyn i helpu os yw'n gallu).
- Anogwch y plentyn i olchi a sychu ei ddwylo.
- Tacluswch a glanhewch y man newid cewynnau, gan gael gwared ar eitemau wedi'u baeddu'n unol â'r canllawiau hylendid.
- Golchwch eich dwylo.

**Yr hyn i'w wneud os bydd plentyn yn drallodus yn ystod y broses newid cewyn/dillad isaf**

- Ewch â'r plentyn trwy bob cam a thawelwch ei feddwl y bydd yn teimlo'n llawer gwell pan fydd yn lân.
- Os oes cymaint o drallod ei bod yn anodd parhau, stopiwch y broses newid cewyn/dillad isaf.
- Os yw hyn yn arwain at broblem hylendid, dylid cysylltu â'r rhieni i esbonio'r sefyllfa a sefydlu ffordd gytunedig o weithredu.
- Beth bynnag, mae'n rhaid cofnodi trallod, p'un ai oedd modd cwblhau'r broses ai peidio, a rhoi gwybod i'r rhieni cyn gynted ag y bo modd.
- Os oes unrhyw bryder ynglŷn â materion amddiffyn plant, dylid ymdrin â'r rhain yn unol â pholisi'r ysgol.

**Yr hyn i'w wneud os gwelir marciau neu gochni**

- Os gwelir marciau neu gochni, dylid cofnodi hyn a rhoi gwybod i rieni'r plentyn cyn gynted ag y bo modd. Os oes unrhyw bryder ynglŷn â materion amddiffyn plant, dylid ymdrin â'r rhain yn unol â pholisi'r ysgol.

**Mynediad i Hyfforddiant Perthnasol**

- Nid yw'r polisi a'r arweiniad hwn yn disodli'r angen am hyfforddiant staff priodol lle teimlir bod angen hyn a bydd yr ysgol yn gweithio gyda rhieni a'r asiantaethau perthnasol i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â materion anymataliaeth.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
| --- |
| Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 22/3/23 |
| Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 22/3/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |